



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad ar newidiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

**Diwygio esemptiadau ac eithriadau
mewn perthynas â gweithgarwch
perygl llifogydd**

Mawrth 2018



© Hawlfraint y Goron 2018

Mae croeso i chi aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v.3. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Anfonwch unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom trwy

E-bost: floodreports@defra.gsi.gov.uk

Neu cysylltwch â:

Kilie Mpopo
Flood Risk Management
Defra
3rd Floor
Seacole Block
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

Ffôn: 0208 0263490

E-bost: kilie.mpopo@defra.gsi.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Crynodeb	1
Pennod 1: Cyflwyniad	5
Diben yr ymgynghoriad	5
Ar bwy fydd y cynigion yn effeithio?	5
Pam mae angen newidiadau?	6
Bwriad polisi Defra a Llywodraeth Cymru.....	6
Sut caiff y cynigion hyn eu datblygu?	6
Pennod 2: Cefndir y polisi a'r ddeddfwriaeth a'r newidiadau arfaethedig	7
Cefndir.....	7
Atodiad A – Ffurflen cwestiynau ac atebion	11

Crynodeb

Hyd a lled yr ymgynghoriad

<p>Testun yr ymgynghoriad hwn</p>	<p>Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno'r cynigion i wneud newidiadau i'r adrannau canlynol o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â gweithgarwch perygl llifogydd yn unig (gweler Pennod 2);</p> <p>Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4, paragraff 1(5)(a) – <i>salmonid map.</i></p> <p>Dyddiad y map salmonidau cyfredol yw 22 Hydref 2015. Mae'r set ddata pysgod a'r map wedi'u diweddarau erbyn hyn, ac rydym yn bwriadu cyfeirio at fap newydd dyddiedig 10 Tachwedd 2017.</p> <p>Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4, paragraff 9 a <i>flood risk activity (b) – maintenance of structures within the channel of a main river.</i></p> <p>Rydym yn cynnig dileu'r esemptiad hwn yn gyfan gwbl gan ei fod yn ymddangos yn ddiangen erbyn hyn.</p> <p>Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4 Esemptiad 16 <i>Rafts for surveys.</i></p> <p>Rydym yn cynnig dileu'r terfyn amser 12 mis a chynnwys amodau pellach.</p> <p>Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4 Esemptiad 20 - <i>Construction of fish passage notches on an existing impoundment.</i></p> <p>Rydym yn cynnig diddymu'r geiriau "fish passage" fel bod modd cwmpasu mathau eraill o fylchau yn fwy cyffredinol.</p> <p>Atodlen 25, Rhan 2, Adran 2, paragraff 5 – <i>Ladders and scaffold towers.</i></p> <p>Rydym yn cynnig ychwanegu'r geiriau "other types of apparatus" at yr eithriad.</p> <p>Atodlen 25, Rhan 2, Adran 2, paragraff 9 - <i>Ffensio.</i></p> <p>Rydym yn cynnig ehangu'r eithriad hwn fel nad yw ffensys wedi'u lleoli ar "flood defences" nac ar welyau na glannau prif afonydd.</p> <p>Mân newidiadau yw'r newidiadau hyn, a bwriad y rhan fwyaf yw dadreoleiddio, gan gynnig mwy o hyblygrwydd i'r sawl sy'n gwneud gwaith ar neu gerllaw prif afonydd. I gael gwybodaeth am yr adrannau penodol a grybwyllir uchod yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, ewch i:-</p> <p>http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/1154/contents/made</p>
<p>Diben</p>	<p>Diben yr ymgynghoriad yw cyflwyno'r cynigion llawn a chael eich sylwadau chi ar y diwygiadau arfaethedig a gyflwynir ym Mhennod</p>

	2. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn helpu i lunio'r cynnig terfynol a gaiff ei roi mewn Offeryn Statudol gerbron Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedyn.
Cwmpas daearyddol	Mae'r newid i'r set ddata pysgod a'r map salmonidau'n berthnasol i Loegr yn unig. Cynigir bod y newidiadau eraill i'r esemptiadau a'r eithriadau'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

Gwybodaeth sylfaenol

Ar gyfer	Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i bawb, ond caiff ei anelu'n benodol at: <ul style="list-style-type: none"> • ffermwyr/tirfeddianwyr lleol; • awdurdodau lleol; • byrddau draenio mewnol; • pob busnes/sefydliad sy'n cynnal gwaith ar/gerllaw prif afonydd
Corff/Cyrff sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) San Steffan a Llywodraeth Cymru sy'n cynnal yr ymgynghoriad hwn.
Hyd	Bydd yr ymgynghoriad yn para am 10 wythnos, yn unol ag 'Egwyddorion Ymgynghori' Swyddfa'r Cabinet sy'n cynghori adrannau'r llywodraeth i fabwysiadu gweithdrefnau ymgynghori cymesur. Dyddiad cychwyn yr ymgynghoriad: Dyddiad gorffen:
Ymholiadau	Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau yn ystod yr ymgynghoriad, cysylltwch â: Kilie Mpopo Flood Risk Management Department for Environment, Food and Rural Affairs 3rd Floor Seacole Block 2 Marsham Street London SW1P 4DF Ffôn: 0208 0263490 E-bost: floodreports@defra.gsi.gov.uk
Sut i ymateb	Yng Nghymru: floodcoastalrisk@gov.wales

	<p>Rheoli Peryglon Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llawr 3 Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p>Rydym yn croesawu ymatebion Cymraeg.</p> <p>Ymatebwch i'r ymgynghoriad yn Lloegr trwy ddefnyddio tudalen 'Consultation Hub' Defra (mae'r cwestiynau i'w gweld yn Atodiad A).</p> <p>neu drwy'r e-bost at floodreports@defra.gsi.gov.uk Neu mae croeso i chi bostio'ch atebion at:</p> <p>Kilie Mpopo Flood Risk Management Department for Environment, Food and Rural Affairs 3rd Floor Seacole Block 2 Marsham Street London SW1P 4DF</p>
<p>Wedi'r ymgynghoriad</p>	<p>Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi a'i roi ar y wefan y llywodraeth yn www.gov.uk/defra</p> <p>Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o'r enwau a'r sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, efallai y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â threfniadau mynediad at wybodaeth e.e. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.</p> <p>Os ydych chi am inni drin gwybodaeth, gan gynnwys data personol a ddarparwch chi, yn gyfrinachol, yna nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad gan ddweud pam rydych chi angen cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgeliad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond allwn ni ddim addo bod modd cadw cyfrinachedd bob amser. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG yn cael ei ystyried fel cais am gyfrinachedd ynddo'i hun.</p>
	<p>Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" sydd yn y canllawiau rheoleiddio gwell yn https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance</p>

	<p>Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch e-bost at consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk neu ysgrifennwch at: Consultation Co-ordinator, Defra, 8A, 8th Floor, Nobel House, 17 Smith Square, London SW1P 3JR</p>
--	---

Pennod 1: Cyflwyniad

Diben yr ymgynghoriad

Mae'r papur ymgynghori hwn yn cyflwyno cynigion Defra a Llywodraeth Cymru er mwyn diwygio cymalau penodol o fewn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 mewn perthynas â gweithgarwch perygl llifogydd.

Mae'r diwygiadau hyn yn ymwneud â

- Diweddarau'r set ddata afonydd salmonidau yn Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4, paragraff 1 (5)(a).

Gwneud newidiadau i'r esemptiadau a'r eithriadau canlynol yn Atodlen 3 ac Atodlen 25 y Rheoliadau:-

- Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4, paragraff 9 a gweithgarwch perygl llifogydd (b) – *maintenance of structures within the channel of a main river*
- Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4 Esemptiad 16 - *Rafts for surveys*
- Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4 Esemptiad 20 - *Construction of fish passage notches on an existing impoundment.*
- Atodlen 25, Rhan 2, Adran 2, paragraff 5 – *Ladders and scaffold towers*
- Atodlen 25, Rhan 2, Adran 2, paragraff 9 - *Fencing*

Dim ond i Gymru a Lloegr y mae'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn berthnasol, heblaw am ddiweddarau'r gronfa ddata/map afonydd salmonidau a fyddai'n berthnasol i Loegr yn unig.

Ar bwy fydd y cynigion yn effeithio?

Bydd y cynigion hyn yn effeithio'n bennaf ar yr unigolion, y busnesau a'r sefydliadau hynny sy'n cynnal gwaith ar neu ger prif afonydd, fel:

- Tirfeddianwyr/ffermwyr;
- Byrddau draenio mewnol;
- Glandŵr Cymru/Canal and Rivers Trust;
- Awdurdodau lleol;
- Perchnogion/preswylwyr glannau'r afon
- Grwpiau amgylcheddol.

Pam mae angen newidiadau?

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr wedi diweddarau'r setiau data pysgod ac felly mae'n bwysig bod y map salmonidau statudol yn dangos ble mae afonydd salmonidau er mwyn adlewyrchu statws yr afonydd ar hyn o bryd. Mae map newydd wedi'i greu, felly mae angen cyfeirio ato a'i ddiweddarau yn y rheoliadau.

Ar ôl bron i ddwy flynedd o ddefnyddio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) mewn perthynas â gweithgarwch perygl llifogydd, mae Asiantaeth yr Amgylchedd, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi cynnal asesiad cychwynnol o esemptiadau ac eithriadau o dan y Rheoliadau EPR ac wedi cynghori y byddai'n well gwneud mân-newidiadau i rai esemptiadau ac eithriadau, yn bennaf er mwyn symleiddio a chaniatáu mwy o hyblygrwydd. Nid adolygiad sylweddol o'r rheoliadau yw hyn, ond cyfle i gyflwyno rhywfaint o newidiadau syml.

Bwriad polisi Defra a Llywodraeth Cymru

Yr amcanion polisi sydd wrth wraidd y newidiadau hyn yw:-

- ehangu'r lefel o ddadreoleiddio;
- gofalu bod y rheoliadau'n gliriach;
- cael gwared ar rwystrau a chyflwyno hyblygrwydd i unigolion a busnesau;
- lleihau biwrocratiaeth i bobl heb gynyddu'r peryglon i'r amgylchedd;

Sut caiff y cynigion hyn eu datblygu?

Rydym yn cynnig cyflwyno'r newidiadau ar ffurf Offeryn Statudol gyda'r bwriad iddynt ddod i rym yn ystod hydref 2018.

Pennod 2: Cefndir y polisi a'r ddeddfwriaeth a'r newidiadau arfaethedig

Cefndir

Cafodd caniatadau amddiffynfeydd llifogydd – lle mae'n rhaid i'r sawl sy'n bwriadu gwneud gwaith ar gyrsiâu dŵr yn gorfod cael caniatâd gan reoleiddwyr perygl llifogydd - eu cyflwyno i'r fframwaith Trwyddedu Amgylcheddol a'r fframwaith cosbau cyfredol ym mis Ebrill 2016. Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol wedi'u cyfuno ers hynny a set newydd o Reoliadau (Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016) wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2017.

Dan y trefniadau EPR, mae nifer o eithriadau ac esemptiadau ar weithgareddau risg isel ar neu ger prif afonydd ac amddiffynfeydd môr. Maen nhw wedi'u diffinio'n benodol yn nhermau bodloni amodau penodol. Ar ôl bron i ddwy flynedd o gymhwyso'r rheoliadau hyn, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnig nifer o fân newidiadau i'r diffiniadau, yn gyffredinol er mwyn ehangu'r sefyllfaoedd lle mae'r rheoleiddio wedi'i esemptio neu ei eithrio. Byddant yn ehangu lefel y dadreoleiddio a bydd llai o bobl yn wynebu'r amodau gwaharddol sydd i'w gweld yn rhai o'r esemptiadau hyn.

Newidiadau arfaethedig

Dyma'r newidiadau arfaethedig:-

Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4, paragraff 1(5) (a) – salmonid map

O fewn y Rheoliadau EPR, mae cyfeiriad at set ddata a map salmonidau dyddiedig 22 Hydref 2015 yn Lloegr. Mae'n fap pwysig gan fod ardaloedd salmonidau yn pennu lle mae gwaith ar afonydd wedi'i gyfyngu ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae unigolion a busnesau angen gwybod ble mae'r ardaloedd hyn er mwyn cynllunio eu gwaith.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi diweddarau'r set ddata pysgod ar gyfer Lloegr, felly mae'n bwysig bod y map statudol newydd yn dangos ble mae afonydd salmonidau er mwyn adlewyrchu statws cyfredol yr afonydd. Cafodd set ddata a map newydd eu creu ar 10 Tachwedd 2017 (copi ynghlwm) ac mae angen cyfeirio at hyn a'i ddiweddarau yn y rheoliadau. Mae'r map newydd yn cynnwys llai o ardaloedd cyfyngedig gan fod arolygon manylach o'r afonydd a chywirdeb y gwaith mapio wedi dangos nad yw cymaint o'r afonydd yn rhai salmonidau fel y credwyd yn wreiddiol.

Yn achos Cymru, mae yna fap dyddiedig 20 Hydref 2015 ond does dim cynigion i gyflwyno unrhyw newidiadau i'r map hwnnw.

Nid ydym yn chwilio am sylwadau/safbwyntiau gan ymgynghoreion ar ddiweddarau'r map.

Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4, Paragraff 9 ac ystyr *flood risk activity* yn Atodlen 25, Rhan 1 paragraff 3(1)(b) – *maintenance of structures within the channel of a main river*

Rydym yn cynnig dileu'r esemptiad hwn o'r Rheoliadau EPR. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael adborth gan staff ac unigolion/sefydliadau bod yr esemptiad hwn yn ddryslyd gan nad yw'n cyd-fynd â diffiniad Gweithgarwch Perygl Llifogydd.

Er mwyn i waith cynnal a chadw gael ei ystyried yn weithgarwch perygl llifogydd fel y nodir yn Atodlen 25, Rhan 1, paragraff 3 (1)(b), rhai ei fod yn "likely to affect the flow of water in the main river or to affect any drainage work". Fel arall, nid yw'n weithgarwch perygl llifogydd ac felly nid oes angen trwydded. Mae amodau'r esemptiad yn dweud na ddylai'r gwaith newid dimensiynau'r strwythur. Yr awgrym felly yw, os nad yw'r gwaith cynnal a chadw'n newid y strwythur, yna ni fyddai'n cyfrif fel gweithgarwch dan Atodlen 25, Rhan 1 paragraff 3(1)(b), ac felly does dim angen dibynnu ar yr esemptiad hwn.

Felly, mae'n ymddangos bod yr esemptiad yn ddiangen. Byddai dileu'r esemptiad yn golygu bod y rheoliadau'n gliriach. Efallai y bydd angen trwydded ar waith ychwanegol sy'n galluogi'r gweithgarwch fel sgaffaldiau a strwythurau dros dro.

- 1. Ydych chi'n cytuno â'r rheswm dros ddileu'r esemptiad hwn?**
- 2. Ydych chi'n bwriadu cyflawni gwaith yr ydych yn ystyried y gallai effeithio ar lif y dŵr heb newid dimensiwn unrhyw strwythur?**
- 3. Ydych chi'n cytuno y gall fod angen trwydded o hyd ar weithgarwch sy'n cefnogi gwaith cynnal a chadw ar strwythurau fel sgaffaldiau ac argaeau coffr/byndiau?**

Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4 Esemptiad 16 - *Rafts for surveys*

At ddiben y paragraff hwn, yr amod penodol rydyn ni'n cynnig ei newid yw

(f) the raft is installed for no more than 12 months and removed immediately if, within that period it is no longer required:

Deallwn fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi derbyn rhywfaint o bryderon gan bobl am y cyfyngiad i ddileu'r rafftiau hyn ar ôl blwyddyn. Felly, rydym yn cynnig **dileu** amseriad y cyfyngiad amser o 12 mis. Bydd y newid yn caniatáu mwy o hyblygrwydd gyda'r rafftiau gan fod angen i rai fod yn eu lle am gyfnod hirach. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso'r newid hwn, rydym yn cynnig ychwanegu'r amodau canlynol er mwyn lliniaru'r risg ychwanegol.

i.) The raft is installed for no longer than required to undertake the survey, after which it must be removed immediately.

ii.) The raft and any anchor(s) are inspected regularly to ensure that they are in good order.

4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r cyfyngiad amser o 12 mis?

5. O ran archwilio'r rafft a'r angor(au), ydych chi'n dymuno gweld gofyniad mwy penodol ar ba mor rheolaidd y dylid cynnal yr archwiliadau?

6. Os felly, pa mor aml y dylai'r arolygiadau gael eu cynnal?

Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4 Esemptiad 20 - *Construction of fish passage notches on an existing impoundment.*

Ar hyn o bryd, mae'r defnydd o'r esemptiad wedi'i gyfyngu gan y cyfeiriad penodol at hwylusfa bysgod. Mae'r diddordeb yn ymwneud ag effaith y strwythur ar yr amgylchedd yn hytrach na'r defnydd ohono, ac felly does dim angen y cyfyngiad hwn.

Rydym yn cynnig dileu'r cyfeiriad penodol at 'fish passage', fel bod modd defnyddio bylchau at ddibenion eraill yn hytrach na physgod e.e. er mwyn creu llif isel ar gored nad yw'n gysylltiedig â hwylusfa bysgod.

7. Ydych chi'n hapus i ddileu'r cyfeiriad at hwylusfa bysgod?

Atodlen 25, Rhan 2, Adran 2, paragraff 5 – *Ladders and scaffold towers*

Dyma destun y Rheoliadau EPR ar hyn o bryd:

5.—(1) The erection and use of ladders and scaffold towers (“equipment”).

Rydyn ni'n cynnig ehangu'r diffiniad hwn i gynnwys “other similar access or service apparatus”. Mae hyn oherwydd bod gweithgareddau tebyg sy'n defnyddio offer tebyg i, ond gwahanol i, ysgol neu dŵr sgaffaldiau, ond sy'n cyflawni'r un pwrpas. Bydd yr amodau penodol i'r eithriad hwn yn parhau mewn grym.

8. Ydych chi'n cytuno â'r cynnigion i gynnwys “other similar access or service apparatus”?

Atodlen 25, Rhan 2, Adran 2, paragraff 9 - *Fencing*

Mae'r cymal presennol yn datgan:

9. The erection of fencing.

(2) For the purposes of this paragraph, the specific conditions are—

(a) the fencing is not located on the bed or banks of the main river

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth o sefyllfaoedd lle mae strwythurau, yn enwedig ffensys ar amddiffynfeydd llifogydd a lle mae ffensys wedi peryglu gweithrediad neu waith cynnal a chadw'r strwythur. Felly, rydym yn ystyried diwygio amodau penodol yr eithriad er mwyn ymestyn yr amod i gynnwys amddiffynfeydd llifogydd ar hyd gwelyau a glannau.

Yr eithriad gwreiddiol oedd caniatáu ffensio ger afonydd cyn belled nad oeddent yn effeithio ar welyau a glannau prif afon, gan y gallai fod angen trwydded bryd hynny. Rydym yn tynhau'r amod hwn er mwyn rheoli ffensys ar ein hamddiffynfeydd llifogydd hefyd. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru angen mwy o reolaeth rheoleiddio strwythurau a all effeithio ar ein hamddiffynfeydd llifogydd. Heb y rheolaeth hon, mae'n anoddach iddynt sicrhau nad yw cadernid strwythurol a gwaith cynnal a chadw amddiffynfeydd llifogydd yn cael eu peryglu.

Mae'r newid arfaethedig yw cynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd (strwythurau) ochr wrth ochr â gwely a glannau'r prif afon fel cyflwr penodol sy'n rhwystro'r gwaharddiad.

9. Ydych chi'n cytuno â'r newid arfaethedig?

Atodiad A – Ffurflen cwestiynau ac atebion

Amdanoch chi

a) Beth yw eich enw?

b) Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

c) Beth yw eich sefydliad?

d) Ydych chi am i'ch atebion fod yn gyfrinachol?

Ydw Nac ydw

Os ateboch chi 'Ydw', nodwch eich rhesymau:

e) Ydych chi'n ymateb fel neu ar ran:

- a) unigolyn
- b) awdurdod lleol
- c) busnes
- d) math arall o sefydliad

Os ateboch chi d) eglurwch

Rhan A

Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4, Paragraff 9 a gweithgarwch perygl llifogydd (b) – *maintenance of structures within the channel of a main river*

Rydym ni'n cynnig dileu'r esemptiad hwn o'r rheoliadau trwyddedu amgylcheddol (gweler yr esboniad dan Bennod 2, tudalen 7).

1. Ydych chi'n cytuno â'r rheswm dros ddileu'r esemptiad hwn?

Ydw Nac ydw

Sylwadau:

2. Ydych chi'n bwriadu cyflawni gwaith yr ydych yn ystyried y gallai effeithio ar lif y dŵr heb newid dimensiwn unrhyw strwythur?

Ydw Nac ydw

Sylwadau:

3. Ydych chi'n cytuno y gall fod angen trwydded o hyd ar weithgarwch sy'n cefnogi gwaith cynnal a chadw ar strwythurau fel sgaffaldiau ac argaeau coffr/byndiau?

Ydw Nac ydw

Sylwadau:

Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4 Esemptiad 16 - *Rafts for surveys*

Rydym ni'n cynnig dileu'r cyfyngiad amser 12 mis a chynnwys amodau newydd (fel y nodir ym Mhennod 2, tudalennau 7/8)

4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r cyfyngiad amser o 12 mis?

Ydw Nac ydw

5. O ran archwilio'r rafft a'r angor(au), ydych chi'n dymuno gweld gofyniad mwy penodol ar ba mor rheolaidd y dylid cynnal yr archwiliadau?

Ydw Nac ydw

6. Os felly, pa mor aml

Sylwadau:

Atodlen 3, Pennod 5, Rhan 4 Esemptiad 20 - *Construction of fish passage notches on an existing impoundment.*

7. Ydych chi'n hapus i ddileu'r cyfeiriad at hwylusfa bysgod?

Ydw Nac ydw

Atodlen 25, Rhan 2, Adran 2, paragraff 5 – *Ladders and scaffold towers*

8. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gynnwys "other similar access or service apparatus"?

Ydw Nac ydw

Atodlen 25, Rhan 2, Adran 2, paragraff 9 - *Fencing*

9. Ydych chi'n cytuno â'r newid arfaethedig?

Ydw Nac ydw